Cynllun Twf Gogledd Cymru
Adroddiad Perfformiad Chwarterol

Chwarter 1 2026-27

(Ebrill - Mehefin 2026)

THIS DOCUMENT IS ALSO AVAILABLE IN ENGLISH.



CYNNWYS

Crynodeb y Cyfarwyddwr Portffolio	3
Uchafbwyntiau Chwarterol	4
Dashfwrdd Cyflawni Prosiect	5
Dashfwrdd Buddion	6
Rhaglen Cysylltedd Digidol	8
Rhaglen Ynni Carbon Isel	10
Rhaglen Tir ac Eiddo	13
Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth	15
Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel	17
Olrhain Cynnydd y Prosiectau, Prosiectau'r Cynllun Twf:	19
Proffil Dyraniad Cyllid Cyfalaf	20
ATODIAD A - Crynodeb Prosiectau - Cynllun Twf	21

CRYNODEB Y CYFARWYDDWR

Mae'r cynnydd wedi parhau yn ystod y chwarter hwn gyda penderfyniadau allweddol gan yr Is-bwyllgor Lles Economaidd I gefnogi y cyflawni. Roedd hyn yn cynnwys yr Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer Elfen Llaeth Cynaliadwy'r prosiect Hwb Economi Wledig Glynllifon; Achos Busnes Llawn ar gyfer Ysgol Fusnes Albert Gubay; ynghyd â chais am newid ac achos busnes wedi'i ddiweddaru ar gyfer prosiect Dyfodol Venue Cymru. Cymeradwyodd yr Is-bwyllgor hefyd ymestyn y cyfnod dilysrwydd ar gyfer tri o brosiectau'r rhaglen Tir ac Eiddo (Safleoedd ac Adeiladau Gogledd Môn, Y Porthladd Rhydd a Phorthladd Mostyn) er mwyn galluogi'r prosiectau i sicrhau eu Cytundebau Cyllid Grant. Cymeradwywyd cronfa wrth gefn ar gyfer chwyddiant costau gan yr Is-bwyllgor, sy'n darparu £3.96m cychwynnol o arian y Cynllun Twf i gefnogi cyflawniad y prosiectau yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i'r risg gynyddol o amgylch fforddiadwyedd yn sgil pwysau chwyddiant costau.

Cafodd ein prosiect adeiladu cyntaf, rhan o'r Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter, adeilad CanfodAU, ei enwi'n brosiect Adeiladu'r flwyddyn dros £5m yng Ngwobrau Adeiladu Constructing Excellence in Wales, sy'n dipyn o gamp i ni ar y cyd â Phrifysgol Wrecsam a'i bartner adeiladu - Wynne Construction.

Dechreuodd y gwaith yn swyddogol ar yr ail adeilad yn M-SParc, sy'n garreg filltir fawr i economi tyfu arloesedd gogledd Cymru. Daeth partneriaid y prosiect at ei gilydd ar 6 Mehefin i gydnabod yn ffurfiol bod y gwaith adeiladu ar y datblygiad Egni newydd wedi dechrau, a bydd hwn yn ymestyn capasiti'r parc i gefnogi busnesau, ymchwilwyr ac arloeswyr sy'n gweithio ar draws ynni carbon isel a thechnolegau uwch.

Yn ystod y chwarter hwn, fe aethom i sawl digwyddiad er mwyn eu defnyddio fel cyfle i hyrwyddo ein gwaith. Ymysg y digwyddiadau hyn roedd Eisteddfod yr Urdd, a gynhaliwyd eleni ym Môn; fe ymunom â stondin Cyngor Môn a Menter Môn; a bu'r ddau yn gyfle gwych i rwydweithio. Cafodd yr Eisteddfod ei phweru yn rhannol gan hydrogen, diolch i fenter a ariannwyd gennym ni, dan arweiniad Menter Môn. GeoPura oedd y cyflenwyr. Roedd modd i ymwelwyr gael taith o amgylch y generaduron ar y safle a blasu'r dŵr - dyma'r unig ôl-gynnyrch sy'n cael ei greu gyda'r ffynhonnell ynni gwyrdd yma.

Am y tro cyntaf, fe fynychom yr UK Real Estate Investment and Infrastructure Forum (UKREiiF), gan ymuno â Llywodraeth Cymru a'r tri Cyd-bwyllgor Corfforedig arall yng Nghymru ym Mhafiliwn Cymru Gyfan. Roedd y tridiau yma yn cynnwys sawl trafodaeth banel oleuedig, yn ogystal ag arddangos gallu Cymru i fod yn lleoliad i fuddsoddi ynddo. Fe wnaeth Uchelgais Gogledd Cymru gynnal digwyddiad brecwast gyda nawdd gan Ontix, i drafod pwysigrwydd cynllunio ar gyfer cysylltedd digidol tu mewn a thu allan, yr heriau sy'n effeithio ar ei ddefnydd, a'r cyfle i greu modelau cyhoeddus-preifat mwy effeithiol ar gyfer cysylltedd rhanbarthol.



Hedd Vaughan-Evans


Cyfarwyddwr Portffolio
Uchelgais Gogledd Cymru

UCHAFBWYNTIAU



Egni

Dechreuodd gwaith ar adeiladu Egni yn safle M-SParc, ac fe dorrwyd y dywarchen gyntaf gyda phartneriaid y prosiect ar 6 Mehefin 2026.



Cydnerth

Cwblhawyd y gwaith ar Wedd 1 y prosiect Cydnerth.



CanfodAu

Enwyd adeilad CanfodAU yn Brosiect Adeiladu'r Flwyddyn dros £5m yng Ngwobrau Adeiladu Constructing Excellence in Wales 2026.



Parc Bryn Cegin

Dechreuwyd ar wedd 1 y gwaith safle ym Mharc Bryn Cegin ym mis Mai.



Cyn Ysbyty Gogledd Cymru

Cwblhawyd y Cytundeb Cyllid Grant ar gyfer Gwedd 1 y gwaith dymchwel, adfer a diogelwch safle gyda Chyngor Sir Ddinbych, a dechreuodd y gwaith yn gynnar ym mis Mehefin.



Hydrogen

Bu i ni ariannu prosiect ar y cyd â Menter Môn a GeoPura i bweru Eisteddfod yr Urdd gan ddefnyddio Hydrogen Gwyrdd.

DASHFWRDD CYFLWYNO PROSIECTAU

	Prosiectau yn Cyflawni (cyllid wedi'i ymrwymo)	Wedi'i gymeradwyo ond heb ei gyflawni eto (cyllid wedi'i ymrwymo)	Datblygu achosion busnes (cyllid wedi'i glustnodi)	Yn cael ei adolygu (cyllid wedi'i glustnodi)	Rhestr Wrth Gefn (cyllid heb ei ddyrannu)
Nifer y Prosiectau	8	10	7	1	11
Dyraniad Cyllid y Cynllun Twf (£234.85*)	£70.27m	£65.89m	£62.93m	£3.80m	£31.96
Cyfanswm Buddsoddiad (targedau achos busnes cronnus)	£257.12m	£136.64m	£342.59m	£16.22m	£247.43**
Swyddi (targedau achos busnes cronnus	876	1,127	1,371	20	606**

DASHFWRDD AMCANION GWARIANT Y PORTFFOLIO

Creu Swyddi *

Targed erbyn 2036: **4,000**

Targed hyd at ddiwedd 2026/27: **202**

	Gwir gyflawnwyd ar ddiwedd 2025/26	Gwir gyflawnwyd Ch2 2026/27	Gwir gyflawnwyd Ch4 2026/27
Cyfanswm Swyddi	121		
Swyddi Newydd	63		
Swyddi Adeiladu	58		

Buddsoddiad

Targed erbyn 2036: **£1bn Cyfanswm Buddsoddiad**

£ Buddsoddiad y Cynllun Twf

Rhagolwg hyd at ddiwedd 2026/27: **£65m**

Gwir gyflawnwyd ar ddiwedd 2025/26	Gwir gyflawnwyd Ch2 2026/27	Gwir gyflawnwyd Ch4 2026/27
£30,652,413		

£ Cyfanswm Buddsoddiad

Rhagolwg hyd at ddiwedd 2026/27: **£120m**

Gwir gyflawnwyd ar ddiwedd 2025/26	Gwir gyflawnwyd Ch2 2026/27	Gwir gyflawnwyd Ch4 2026/27
£34,208,618		

*Mae data am swyddi yn cael ei gasglu bob 6 mis, gan adrodd ar ffigyrau ym mis Hydref (diwedd Ch2) a mis Ebrill (diwedd Ch4). Mae'r ffigyrau ar y dudalen hon yn gronnus.

DASHFWRDD BUDDION

Buddion

Refeniw wedi'i Sicrhau
£7,054,089

Incwm cyfalaf wedi'i drosoli
£81,016

Gofod llawr wedi'i ddatblygu
2,349m²

Ymgysylltu â Gweithlu'r Dyfodol
6,407 o gyfranogwyr

Camau Gweithredu i gryfhau cadwyni cyflenwi lleol
81

Myfyrwyr yn cwblhau cymwysterau
(I'W GADARNHAU)

Caffael

£67,733,341
Cyfanswm gwerth y contractau Cynllun Twf a ddyfarnwyd (yn cynnwys TAW)

£58,23,341
Cyfanswm gwerth y contractau Cynllun Twf a ddyfarnwyd i gyflenwyr Gogledd Cymru (yn cynnwys TAW)

86%
o gontractau'r Cynllun Twf wedi'u dyfarnu i gyflenwyr o ogledd Cymru

£54,689,548
Cyfanswm gwerth y contractau Cynllun Twf a ddyfarnwyd i fusnesau SME (yn cynnwys TAW)

81%
o gontractau'r Cynllun Twf wedi'u dyfarnu i fusnesau SME

PERFFORMIAD Y RHAGLEN DDIGIDOL

Nod y Rhaglen

Cyflawni newid amlwg yn y cysylltedd digidol sydd ei angen i sicrhau y gall Gogledd Cymru gyflawni galw'r defnyddwyr, cynnal cyflymdra â gweddill y DU, datgloi potensial sectorau a safleoedd â blaenoriaeth am dwf a thanategu ecosystem arloesi ffyniannus.

Creu swyddi
Rhagolwg cyfredol: 272
Gwir: 25

Cyfanswm buddsoddiad
Rhagolwg cyfredol: £42.73m
Gwir: £3.05m

Statws RAG

Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen

- Mae'r eitemau terfynol o offer ar gyfer y prosiect Canolfan DSP wedi'u cyflawni ar ôl oedi.
- Cynhaliwyd trydydd cyfarfod y Fforymau Teleathrebu Rhanbarthol yn ystod y chwarter hwn
- Mae'r Cynlluniau Grant Di-wifr Uwch a 4G+ wedi'u datblygu ac i fod i gael eu hadolygu a'u cymeradwyo ym mis Gorffennaf (Ch2).
- Mae piblinell diddordeb wedi'i datblygu ar gyfer y cynlluniau grant gyda hyder y bydd y Mynegiannau o Ddiddordeb yn cael eu derbyn gan y diwydiant yn y ffenestr ymgeisio gyntaf ar gyfer y cynlluniau grant.
- Mae ail ran rhoi 4G /5G ar waith yn y rhanbarth bellach wedi'i osod gyda disgwyl comisiynu llawn yn Ch2



Ian Jones
Uwch Berchennog Cyfrifol



Stuart Whitfield
Rheolwr Rhaglen

Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)

Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)

Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

PERFFORMIAD Y RHAGLEN DDIGIDOL

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Canolfan Prosesu Signal Digidol Prifysgol Bangor	Prosiect yn cael ei gyflawni	• Derbyn yr eitemau olaf o offer.	• Lansio ymgysylltiad busnes rhanbarthol strwythuredig.		• Eitemau olaf o offer wedi'u heffeithio gan oedi yn y gadwyn gyflenwi. • Mae'r prosiect yn methu'r targed o ran sicrhau arian grant ychwanegol. • Ymgysylltu busnes rhanbarthol wedi'i ohirio oherwydd problemau capasiti.
4G+ Uchelgais Gogledd Cymru	Wedi'i gymeradwyo, ond ddim yn cyflawni ar hyn o bryd	• Cynhaliwyd trydydd cyfarfod y fforwm telathrebu.	• Cymeradwyo a lansio cynlluniau grant. • Pedwerydd cyfarfod y fforwm teleathrebu i'w gynnal		• Mae dyluniad y cynllun grant wedi'i gwblhau gyda phenderfyniad i gymeradwyo wedi'i amserlennu ar gyfer dechrau mis Gorffennaf. • Mae lansiad y cynllun wedi'i oedi yn rhannol, fodd bynnag, mae diddordeb cryf gan y diwydiant a hyder yn y mynegiannau o ddiddordeb cynnar.
Di-wifr Uwch Uchelgais Gogledd Cymru	Wedi'i gymeradwyo, ond ddim yn cyflawni ar hyn o bryd	• Ymgysylltu ymhellach â darpar ymgeiswyr yn y sector preifat a chyhoeddus.	• Cymeradwyo a lansio cynlluniau grant.		• Mae dyluniad y cynllun grant wedi'i gwblhau gyda phenderfyniad i gymeradwyo wedi'i amserlennu ar gyfer dechrau mis Gorffennaf. • Mae lansiad y cynllun wedi'i oedi yn rhannol, fodd bynnag, mae diddordeb cryf gan y diwydiant a hyder yn y mynegiannau o ddiddordeb cynnar.
LPWAN Uchelgais Gogledd Cymru	Wedi'i gymeradwyo, ond ddim yn cyflawni ar hyn o bryd	• Cynlluniau defnydd LoRaWAN terfynol i gael eu cyflwyno.	• Cymeradwyo Cytundebau Grant a gosodiadau i fwrw ymlaen.		• Cynlluniau gweithredu terfynol wedi'u derbyn ac i fod i'w cymeradwyo yn Ch2, ac yna bydd rhagor o osodiadau.

PERFFORMIAD Y RHAGLEN YNNI CARBON ISEL

Nod y Rhaglen

Datgloi buddion economaidd prosiectau ynni carbon isel trawsffurfiol a sefydlu Gogledd Cymru fel un o leoliadau arweiniol y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, arloesedd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi.

Creu swyddi
Rhagolygon cyfredol: : 662
Gwir: 10

Cyfanswm buddsoddiad
Rhagolygon cyfredol: £164.27m
Gwir: £9.62m

Statws RAG

Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen

- **Cydnerth** - Gwaith Gwedd 1 wedi'i gwblhau, dad-weithredu'r safle.
- **Cronfa Ynni Glân (Ynni Lleol Blaengar)** - Gwnaed y buddsoddiadau cyntaf o is-gronfeydd y sector Preifat a Gwirfoddol
- **Trawsfynydd** - Paratoi ITT ar gyfer tîm amlddisgyblaethol, gwasanaeth cyflawn, i gyflawni'r pecynnau gwaith gofynnol i hysbysu'r FBC, ynghyd â chynhyrchu'r ddogfen FBC
- **Egni** - Gwaith paratoi'r cytundeb cyllid grant ar y gweill. Wedi dechrau ar y safle ym mis Mai 2026.
- **Hwb Hydrogen Caergybi** - Cyflwyno'r Achos Busnes Amlinellol



Dylan Williams
Uwch Berchennog Cyfrifol



Meghan Davies
Rheolwr Rhaglen

Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)

Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)

Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

PERFFORMIAD Y RHAGLEN YNNI CARBON ISEL

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Cydnerth (Morlais) Menter Môn	Prosiect yn cael ei gyflawni	• Gwaith Gwedd 1 wedi'i gwblhau • Dad-weithredu'r safle	• Ymgysylltu parhaus â'r datblygwr a'r grid • Adroddiad Allyriadau a Bioamrywiaeth Blwyddyn 1		Mae'r prosiect wedi symud i'r cyfnod cyflawni ac mae'n mynd rhagddo'n dda.
Egni Prifysgol Bangor	Prosiect yn cael ei gyflawni	• Cyflawni'r Cytundeb Cyllid Grant • Casglu tystiolaeth amodau cynsail • Gwaith wedi dechrau ar y safle ym mis Mai 2026.	• Gwaith ar y tir wedi'i gwblhau a ffram ddur wedi'i chodi • Llofnodi a selio'r cytundeb cyllid grant		Prosiect wedi symud i gyflawni a gwaith wedi dechrau ar y safle.
Cronfa Ynni Glan Uchelgais Gogledd Cymru	Prosiect yn cael ei gyflawni	• Parhau i gyflwyno Mynegiadau o Ddiddordeb ar draws pob un o'r 3 is-gronfa. • Arian cyntaf wedi'i roi o'r is-gronfa gwirfoddol a phreifat. • Digwyddiadau hyrwyddo ac ymgysylltu.	• Digwyddiadau hyrwyddo ac ymgysylltu • Parhau i asesu ceisiadau a dyfarnu • Adolygiad 1 blwyddyn		Mae'r prosiect yn wyrdd gan fod Achos Busnes Llawn wedi'i gymeradwyo a'r gronfa wedi'i lansio.
Hwb Hydrogen Caergybi Menter Môn	Datblygu'r Achos Busnes Llawn	• Cyflwyno'r Achos Busnes Amlinellol a sicrhau cynllunio o fewn yr amserlen. • Trosglwyddo £4.8m o arian Adran Diogelwch Ynni a Sero Net ar y gweill. • Penderfyniad cynllunio wedi'i roi.	• Menter Môn i barhau i ymgysylltu i ddenu defnyddwyr • Paratoi Achos Busnes Llawn.		Statws RAG wedi newid i ambr gan bod y prosiect wedi cyflwyno Achos Busnes Amlinellol ac wedi sicrhau caniatâd cynllunio o fewn yr amserlen 6 mis.
Canolfan Arloesi, Busnes a Sgiliau Trawsfynydd Cyngor Gwynedd	Datblygu'r Achos Busnes Llawn	• Paratoi ITT ar gyfer tîm amlddisgyblaethol, gwasanaeth cyflawn, i gyflawni'r pecynnau gwaith gofynnol i hysbysu'r FBC, ynghyd â chynhyrchu'r ddogfen FBC.	• Canlyniad y broses tendro • Paratoi Achos Busnes Llawn. • Mynd i'r afael â materion heb eu datrys sydd wedi'u hargymell gan y PMO gan gynnwys caniatâd cynllunio a chytundebau prydles tir.		Mae'r prosiect yn wyrdd gan fod yr Achos Busnes Amlinellol wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo ac mae yna 12 mis i gyflwyno'r Achos Busnes Llawn.

PERFFORMIAD Y RHAGLEN TIR AC EIDDO

Nod y Rhaglen

Mynd i'r afael â'r diffyg tir ac eiddo addas ar gyfer twf busnes a dod â safleoedd ymlaen ar gyfer datblygiadau tai. Cyflawni gwelliannau sy'n symbylu buddsoddiad mewn safleoedd ac eiddo ym mhorthladd Caergybi a'r ardal ehangach. Hwyluso rhaglenni eraill drwy sicrhau bod y seilwaith tir ac eiddo cywir ar gael

Creu swyddi
Rhagolygon cyfredol:: 1,342
Gwir: 0

Total Investment
Rhagolygon cyfredol:: £242.84m
Gwir: £1.58m

Statws RAG

Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen

- **Cyn Ysbyty Gogledd Cymru** - Cwblhawyd y Cytundeb Cyllid Grant ar gyfer Gwedd 1 y gwaith dymchwel, adfer a diogelwch safle gyda Chyngor Sir Ddinbych, a dechreuodd y gwaith yn gynnar ym mis Mehefin.
- **Parc Bryn Cegin** - Dechreuwyd ar wedd 1 y gwaith safle ym mis Mai.
- **Porth Wrecsam** - Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi penodi ymgynghorwyr i ymdrin â ffosffadau sy'n gollwng i Afon Dyfrdwy.
- **Y Porthladd Rhydd** - Dechreuwyd ar y broses ITT yn gynnar ym mis Mai ar gyfer penodi Prif Gontractwr ar gyfer y safle PEBOC.
- **Ysgol Fusnes Albert Gubay** - Cytunwyd ar yr FBC ar 12 Mehefin.



David Fitzimon
Uwch Berchennog Cyfrifol



David Mathews
Rheolwr Rhaglen

Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)

Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)

Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

PERFFORMIAD Y RHAGLEN TIR AC EIDDO

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Cyn Ysbyty Gogledd Cymru Jones Bros (Ruthin) Limited / Cyngor Sir Ddinbych	Cam 1 y Prosiect yn cael ei gyflawni	• Cytundeb Arian Grant ar gyfer gwaith Cam 1 wedi'i gwblhau a'i lofnodi. • Contract Gwaith Clirio Safle ar gyfer gwaith Cam 1 i'w gytuno ddechrau mis Mehefin.	• Cwblhau'r gwaith ar ffens diogelwch well o amgylch y safle. • Ramboll i ddechrau arolygon ar gyflwr yr adeiladau wedi'i gynnwys yn y cais Caniatâd Adeilad Rhestredig. • Y gwaith dymchwel ac adfer arfaethedig i ddechrau.		• Materion iechyd a diogelwch sylweddol ar y safle yn sgil cyflwr yr adeiladau a'r halogiad ar y safle. • Amgylchedd gwaith heriol ac anodd asesu cost a sgôp y gwaith yn gywir. • Cais Adeilad Rhestredig presennol i ddymchwel y strwythurau sy'n weddill yn destun trafodaethau manwl gyda CADW.
Parc Bryn Cegin, Bangor Llywodraeth Cymru / Uchelgais Gogledd Cymru	Cam 1 y Prosiect yn cael ei gyflawni	• Gwaith lliniaru ecolegol wedi dechrau ym mis Mai. • Amrywiad arfaethedig i'r JVA ar gyfer Gwedd 2 y prosiect wedi'i rannu â LIC. • Amrywiaethau drafft i'r FBC ar gyfer Gwedd 2 y gwaith wedi'u cwblhau.	• Gwaith tir ac adeiladu dur i ddechrau. • Tendr Terfynol gan Read Construction ar gyfer Gwedd 2 y Prosiect i fod i gyrraedd ym mis Awst. • Cwblhau'r Penawdau Telerau ar gyfer Gwedd 2 yn derfynol. • Diwygio a diweddaru'r FBC.		• Prosiect yn gwneud cynnydd da ar y safle. • Cais posib am arian ychwanegol dyledus am chwyddiant costau ar gyfer gwaith Gwedd 2.
Porth Wrecsam Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	Datblygu'r Achos Busnes Llawn	• Arolygon ecolegol yn parhau a datrysiad ar gyfer ffosffadau i'w benderfynu. • Trafodaethau yn parhau gyda thirfeddianwyr ar gyfer cydosod y safle.	• Cwblhawyd arolygon ecolegol ar y safle a derbyniwyd cyngor gan yr ymgynghorydd ar ollyngiadau ffosffad i'r gwaith trin. • Cynnydd parhaus ar gydosod y safle. • Penderfyniad ar y cais cynllunio amlinellol.		• Cydosod y safle, • Penodi partner datblygu. • Datrysiad ar gyfer gollyngiadau ffosffad i Afon Dyfrdwy.

PERFFORMIAD Y RHAGLEN TIR AC EIDDO

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Safleoedd ac Adeiladau Gogledd Môn Sites Cyngor Sir Ynys Môn	Wedi'i gymeradwyo ond ddim yn cyflawni ar hyn o bryd	• Caeodd dyddiad tendro Cyngor Môn a dewiswyd Prif Gontractwr arfaethedig.	• Dechrau'r gwaith ar y safle. • Cwblhau'r Cytundeb Cyllid Grant		• Prosiect yn gwneud cynnydd da gyda gwaith safle i ddechrau yn Ch2 ym mlwyddyn ariannol 26/27..
Porth y Porthladd rhydd Cyngor Sir Ynys Môn	Wedi'i gymeradwyo ond ddim yn cyflawni ar hyn o bryd	• Dechreuodd y broses ITT ddechrau mis Mai ar gyfer penodi Prif Gontractwr ar gyfer safle PEBOC. • Prynodd Cyngor Môn Safle PEBOC a chafodd feddiant gwag o'r safle.	• Cwblhau'r Cytundeb Cyllid Grant. • Penodi Prif Gontractwyr ar gyfer PEBOC a Phlot 2 Tregarnedd. • Dechrau gwaith ar y safle.		• Prosiect ar y trywydd iawn i'w gyflawni yn dechrau ar y safle yn Ch2 Bl. Ariannol 26/27
Padeswood Trafnidiaeth Cymru	Datblygu'r Achos Busnes Llawn	• Mae cyfarfodydd prosiect ffurfiol gyda Trafnidiaeth Cymru a Network Rail wedi dechrau. • Trosglwyddo'r prosiect yn ffurfiol o Trafnidiaeth Cymru a Network Rail.	• Darparu amserlen gadarn ar gyfer cyflawni'r prosiect. • Cwblhau'r Memorandwm o Ddealltwriaeth rhwng Network Rail a Heidelberg Materials.		• Gwaith dylunio a chostau trac Network Rail yn parhau. • Alinio gwaith trac Network Rail a Heidelberg Materials yn y rhaglen.
Ysgol Fusnes Albert Gubay Prifysgol Bangor	Datblygu'r Achos Busnes Llawn	• Cymeradwywyd Achos Busnes llawn gan yr Is-bwyllgor ar 12 Mehefin • Cytunwyd ar amodau cynllunio cyn cychwyn. • Asesiadau carbon a bioamrywiaeth gwaelodlin wedi'u cwblhau. • Costau terfynol a dderbyniwyd gan Wynne's Construction. • Cais am gyllid ychwanegol i dalu chwyddiant costau mewn pecyn gwaith tendr.	• Cwblhau'r Cytundeb Cyllid Grant. • Cynllun a Chofrestr Buddion Terfynol. • Penodi Prif Gontractwr. • Mae'r gwaith galluogi yn dechrau ym mis Awst ac yna gwaith ar y prif safle ym mis Medi 2026. • Cais am Chwyddiant Costau yn y Gronfa Wrth Gefn.		• Y gwaith o gwblhau'r cytundeb cyllid grant yn parhau. • Caniatâd cynllunio wedi'i roi. • Achos Busnes Llawn wedi'i gymeradwyo. • Prif Gontractwr i'w benodi ym mis Awst 2026.

PERFFORMIAD Y RHAGLEN TIR AC EIDDO

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Porthladd Mostyn Mostyn Estates	Wedi'i gymeradwyo ond ddim yn cyflawni ar hyn o bryd	• Dechreuodd y Prif Gontractwr y Pecyn Gwaith Adfer Tir ar safle Marsh Row.	• Cadarnhau ffensys diogelwch, a thendrau pecynnau gwaith pad lifft trwm. • Cwblhau'r Cytundeb Cyllid Grant. • Dechrau cofrestru Rheoli Cymorthdaliadau.		• Mae risgiau prosiect mawr i gyd yn cael eu hasesu fel rhai derbyniol ar hyn o bryd. • Mae sgôr y prosiect yn wyrdd yn amodol ar gwblhau caffael a dull pwrpasol ar gyfer asesu carbon.

PERFFORMIAD Y RHAGLEN BWYD-AMAETH A THWRISTIAETH

Nod y Rhaglen

Adeiladu economi sylfaen mwy cynaliadwy, bywiog a gwydn o fewn y rhanbarth, gan wneud y gorau o gyfleoedd am gyflogaeth a ffyniant drwy ein hamgylchedd a'n tirwedd.

Creu swyddi
Rhagolygon cyfredol:: 524
Gwir: 0

Cyfanswm Buddsoddiad
Rhagolygon cyfredol:: £75.02m
Gwir: £3.94m

Statws RAG

Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen

- **Anturiaethau Cyfrifol** – Mae'r Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer yr elfen Slate Explorer wedi cael ei gymeradwyo gan aelodau'r Rhaglen a'r Portffolio i symud ymlaen i EWBSC, gan nodi carreg filltir allweddol wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen.
- **Academi Croeso** – Mae'r Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer lloeren Dylan's wedi cael ei gymeradwyo gan aelodau'r Rhaglen a'r Portffolio i symud ymlaen i EWBSC, ar ôl iddynt gael eu penodi'n bartner cyflenwi newydd.
- **Hwb Economi Gwledig Glynllifon** – Mae caffael wedi symud ymlaen ar gyfer yr elfen Datblygu Llaeth Cynaliadwy. Mae'r gwaith o adeiladu elfen Llaeth Defaid Cymru ar y gweill ac mae'n parhau i gael ei chwblhau yn gynnar yn 2027. Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid cynllunio yn parhau i gefnogi datblygiad yr hwb.
- **Dyfodol Venue Cymru** – Mae'r Achos Busnes Amlinellol wedi'i ddiweddaru wedi'i gymeradwyo gan yr Is-bwyllgor Llesiant Economaidd. Mae'r gwaith bellach yn canolbwyntio ar ddylunio manwl, cynllunio busnes ac ymgysylltu â rhanddeiliaid cyn yr Achos Busnes Llawn.



Sioned Williams
Uwch Berchennog Cyfrifol



Elliw Hughes
Rheolwr Rhaglen

Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)

Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)

Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

PERFFORMIAD Y RHAGLEN BWYD-AMAETH A THWRISTIAETH

Prosiect (Ariannwr y Prosiect	Cam y prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Hwb Economi Gwledig Glynllifon Grŵp Llandrillo Menai	Defaid Llaeth Cymru yn cael ei gyflawni. Llaeth Cynaliadwy - Cymeradwywyd gan y BJC. Hwb yn datblygu FBC	• Peirianneg gwerth yn agosáu at ei gwblhau ar gyfer y prif gontract ar gyfer y Datblygiad Llaeth Cynaliadwy. • Cyfarfodydd Technegol a gynhaliwyd gyda Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a GLLM ynglŷn â chynllunio i'r Hwb.	• Gweddill y gwaith caffael ar gyfer elfen Llaeth Defaid Cymru. • Cwblhau'r proses gaffael ar gyfer yr elfen Llaeth Cynaliadwy. • Cymeradwyaeth ddirprwyedig a symud i gyflawni ar gyfer Llaeth Cynaliadwy. • Drafftio Achos Busnes Llawn. • Cynllunio ar gyfer cyflwyno'r Hwb.		• Risg cynllunio ar gyfer yr Hwb • Costau prosiect oherwydd chwyddiant • Caffael Anghyflawn • Amserlenni Prosiect Hwb
Academi Croeso Grŵp Llandrillo Menai	Prosiect yn cael ei gyflawni	• Dylan's Restaurant Limited wedi'i gadarnhau fel lloeren newydd • Ymgysylltu â phrosiectau gyda lloerenni eraill • Lloeren newydd BJC wedi'i gymeradwyo gan fwrdd y Rhaglen a'r Portffolio.	• Llofnodi Cytundeb Cyllido cefn-wrth-gefn gyda Zip World • Caffael ymlaen llaw ar gyfer lloerenni Zip World a Dylan's. • Cymeradwyaeth BJC, llofnodi cytundeb cyllid gefn-wrth-gefn a symud i gyflawni ar gyfer lloeren Dylan's.		• Yn aros am gymeradwyaeth yr Is-bwyllgor Llesiant Economaidd • Cytundebau cefn-wrth-gefn • Gweithgaredd caffael anghyflawn. • tanwariant ar y proffil cyfredol • Llinell amser risg ar gyfer datblygu'r hwb
Dyfodol Venue Cymru Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Datblygu'r Achos Busnes Llawn	• Cymeradwyaeth OBC wedi'i ddiweddaru. • Gweithgaredd caffael parhaus • Symudodd y gwasanaeth Gwybodaeth i Dwristiaeth i leoliad dros dro o fewn Venue Cymru	• Dechrau cynllunio arolygon ac ymgysylltu. • Cwblhau dyluniad cynllun seddi ar gyfer ail-gyfluniad yr awditoriwm. • Datblygu Achos Busnes Llawn • Cyflwyno cais cynllunio		• Caniatâd cynllunio. • Peidio â sicrhau pecyn cyllid llawn. • Oedi gyda'r caffael.

PERFFORMIAD Y RHAGLEN BWYD-AMAETH A THWRISTIAETH

Prosiect (Ariannwr y Prosiect	Cam y prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Anturiaethau Cyfrifol ZipWorld	Datblygu BJC / Achos Busnes Llawn	• Achos Cyfiawnhad Busnes Slate Explorer wedi'i gymeradwyo gan fwrdd y Rhaglen a'r Portffolio • Ymgysylltu parhaus ag awdurdodau cydsyniol gyda chydsynio ar draws gwahanol elfennau o'r prosiect	• Cwblhau dwy broses gaffael fawr • Cymeradwyaeth i'r Achos Cyfiawnhad Busnes Slate Explorer • Dechrau adeiladu yn Llechwedd ar gyfer y Slate Explorer. • Caniatâd cynllunio ar gyfer Slate Explorer • Paratoi'r Achosion Busnes sy'n weddill • Parhau ag ymgysylltu â rhanddeiliaid/cymunedol • Rhannu drafft cyntaf y Cytundeb Cyllid Grant		• Cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor Llesiant Economaidd yn yr arfaeth • Heriau caniatâd cynllunio. • Risg caffael oherwydd pa mor unigryw yw'r prosiect • Oedi gyda'r amserlenni

PERFFORMIAD Y RHAGLEN ARLOESI MEWN GWEITHGYNHYRCHU GWERTH UCHEL

Nod y Rhaglen

Cyfnerthu lleoliad Gogledd Cymru fel clwstwr gweithgynhyrchu gwerth uchel pwerus ac arloesol, sy'n adeiladu ar arbenigedd presennol ac arbenigedd byd-eang i greu sail economaidd gwerth uwch, mwy amrywiol sy'n cefnogi trosglwyddo i economi carbon isel.

Creu swyddi
Rhagolygon cyfredol: 594
Gwir: 21

Cyfanswm Buddsoddiad
Rhagolygon cyfredol: : £228.41m
Gwir: £14.94m

Statws RAG

Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen

- Mae'r Ganolfan Peirianneg ac Opteg Menter wedi cwblhau'r gwaith o adnewyddu'r Ganolfan OpTIC yn Llanelwy, gan gynnwys gweithgareddau caffael ar gyfer y Labordy Hydrogen, ac mae'n parhau i ddarparu hyfforddiant ar offer sydd newydd eu gosod.
- Mae'r Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol wedi symud ymlaen i'r cam dylunio a chaffael ar gyfer y gwaith ychwanegol a ariennir trwy ailddyrannu tanwariant prosiect.
- Mae Society 5.0 yn parhau i gaffael a gosod offer yn unol â chynlluniau cyflawni prosiectau.
- Mae Project Prince Knauf yn parhau i symud ymlaen trwy'r broses gynllunio. Mae sicrhau caniatâd cynllunio yn parhau i fod yn gymhleth, gyda gofynion yr Hawlen Amgylcheddol yn her allweddol. Mae gweithgareddau ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid, cefnogaeth ac arfarnu opsiynau yn parhau. Mae dull cynllunio dau gam wedi'i fabwysiadu, sy'n cwmpasu'r gwaith adfer a'r adeiladu fertigol, gyda cheisiadau ar gyfer y ddau gam bellach wedi'u cyflwyno.
- Mae Porth Busnes Prifysgol Wrecsam wedi dyfarnu'r contract ar gyfer cam cyntaf y gwaith ac mae'n parhau i fwrw ymlaen i ddatblygu'r Achos Busnes Llawn.



Tony Ward
Uwch Berchennog Cyfrifol



Elliw Hughes
Rheolwr Rhaglen

Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)

Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)

Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

PERFFORMIAD Y RHAGLEN ARLOESI MEWN GWEITHGYNHYRCHU GWERTH UCHEL

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter Prifysgol Wrecsam	Prosiect yn cael ei gyflawni	• Torrwr jet dŵr wedi'i osod ac yn cael ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau mewnol. • Croesawyd Cynrychiolwyr Masnach Malta sy'n ceisio gweithio gyda chwmnïau lleol. • Uwchraddio offer fel microsgop electron sganio. • Hyfforddiant ar offer newydd fel y system is-goch • Cwblhau'r gwaith adnewyddu OpTIC.	• Cymeradwyo Achos Cyfiawnhau Busnes ar gyfer offer Plas Coch. • Caffael ar gyfer labordy hydrogen. • BJC drafft ar gyfer y labordy Hydrogen.		• Prosiect yn agosáu at ei gwblhau'n llawn. • Dim materion arwyddocaol yn y prosiect, prosiect yn bwrw ymlaen yn dda. Ychydig o oedi i'r prosiect oherwydd cwblhau'r caffael / contract. • Buddion yn cael eu gwireddu.
Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol Prifysgol Bangor	Prosiect yn cael ei gyflawni	• Cynhaliodd CEB gyfarfod blynyddol Prosiect Hwb Cenhadaeth Bioleg Peirianneg UKRI. • Cwblhawyd dyluniad gwaith ychwanegol a dechreuodd y broses gaffael. • Hyfforddiant ar offer newydd	• Gweithgaredd caffael wedi'i gwblhau ar gyfer gwaith ychwanegol tanwario. • Comisiynu'r bioadweithydd mawr ar gyfer y cyfleuster CEB + *scale up*.		• Prosiect yn nesau at gwblhau'r cam cyflawni. • Buddion yn cael eu gwireddu • Ychydig o oedi i waith ychwanegol ond • Prosiect risg isel.
Society 5.0 Prifysgol Wrecsam	Prosiect yn cael ei gyflawni	• Pob argraffydd 3D wedi'i osod. Argraffydd 3D bambŵ sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau allgymorth i gynyddu cronfa dalent STEM y genhedlaeth nesaf. • Codir pob archeb brynu ar gyfer pob darn o offer	• Symud ymlaen pob gorchymyn prynu ar gyfer cymeradwyaeth fewnol y Brifysgol. • Hawlio gwariant llawn y prosiect.		• Prosiect offer yn unig • Cynhaliwyd digon o brofion o'r farchnad ar gyfer yr offer sy'n weddill. • Cyfnod byr i'r prosiect o'i ddechrau hyd cyflawni. • Oedi wrth hawlio.

PERFFORMIAD Y RHAGLEN ARLOESI MEWN GWEITHGYNHYRCHU GWERTH UCHEL

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Project Prince Knauf	Datblygu'r Achos Busnes Llawn	• Cyflwyniad cynllunio ar Adeiladu Fertigol • Cyflwynwyd cais am hawlen amgylcheddol. • Trafodaeth feirniadol sylweddol â rhanddeiliaid er mwyn cael caniatâd cynllunio. • Dyluniad manwl yn mynd ymlaen i gam pedwar RIBA. • Swyddfeydd wedi'u rhentu ar safle TATA ar gyfer y Knauf Engineering a'r tîm safle i sefydlu a bod yn weithredol.	• Cyfarfod y pwyllgor cynllunio 15 Gorffennaf - adfer ar y safle • Adfer safle / paratoi tir a symud i gyflawni. • Ymgysylltu parhaus ar faterion amgylcheddol i gael caniatâd cynllunio ar gyfer Adeiladu Fertigol. • Rhannu drafft cyntaf y Cytundeb Cyllid Grant		• Proses Gynllunio ac Amgylcheddol gymhleth i gael caniatâd, ond digon o ymgysylltu â rhanddeiliaid i liniaru cymaint o risg â phosib.
Porth Busnes Prifysgol Wrecsam	Datblygu'r Achos Busnes Llawn	• Dyfarnwyd contract ar gyfer cam cyntaf y gwaith. • Datblygu dyluniad a chynllunio costau ar gyfer cydran Nick Whitehead wedi'i gwblhau'n sylweddol.	• Gweithdy gyda rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru. • Cam Cynnydd 1 trwy'r cam PCSA. • Paratoi ar gyfer contract Dylunio ac Adeiladu JCT ar gyfer gwaith Canolfan Catrin Finch. • Caffael contractwr ar gyfer yr ail gam.		• Cynnydd at yr Achos Busnes Llawn yn mynd yn dda. • Cytundeb Cyllid Grant yn cael ei ddrafftio. • Aliniad gweithgarwch caffael â phrosesau Uchelgais Gogledd Cymru.

PROFFIL SWYDDI A BUDDSODDI

Prosiect	Cam Caniatâd				Cam 1	Cam 2	Cam 3	Cam 4	Cam 5	Cam 6	Cam 7	Cam 8
	Y cyfnod cyn gwneud cais	Cynllunio amlinellol / Caniatâd	Cynllunio llawn / Caniatâd	Amodau wedi'u gweithredu	Pennu cyd-destun y Prosiect	Paratoi'r Achos Amlinellol Strategol	Paratoi'r Achos Busnes Amlinellol	Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol	Paratoi'r Achos Busnes Llawn	Cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn	Gweithredu a monitro'r prosiect	Arfarnu'r Prosiect
Canolfan Prosesu Signal Digidol	Dim angen cynllunio				☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	
4G+	Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau				☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	
LPWAN	Dim gofynion cydsynio				☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	
Di-wifr Uwch	Dim cydsynio ar lefel y cynllun grant				☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	
Cydnerth (Morlais)	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	
Egni	☑	☑	☑		☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	
Ynni Lleol Blaengar	Nid oes angen cydsynio ar lefel y gronfa				☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	
Hwb Hydrogen Caergybi	☑	☑	☑									
Busnes, Arloesi a Sgiliau Trawsfynydd	☑				☑	☑	☑	☑	☑			
Cyn Ysbyty Gogledd Cymru	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	
Parc Bryn Cegin, Bangor	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	
Porth Wrecsam	☑	☑			☑	☑	☑	☑	☑			
Safleoedd ac Adeiladau Gogledd Môn	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	
Porth y Porthladd Rhydd	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	
Padeswood	Dim gofynion cydsynio (i'w gadarnhau)				☑	☑	☑	☑	☑			
Ysgol Fusnes Albert Gubay	☑	☑	☑		☑	☑	☑	☑	☑			
Porthladd Mostyn	Nid oes angen caniatâd cynllunio.				☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	
Hwb Economi Gwledig Glynllifon	☑				☑	☑	☑	☑	☑	☑		
Rhwydwaith Talent Twristiaeth	☑	☑	☑		☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	
Antur Gyfrifol	☑	☑			☑	☑	☑	☑	☑			
Dyfodol Venue Cymru	☑				☑	☑	☑	☑	☑			
Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol	☑	☑	☑		☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	
Opteg a Pheirianneg Menter	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	
Society 5.0	Dim angen cynllunio				☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	
Prosiect Prince	☑				☑	☑	☑	☑	☑			
Porth Busnes	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑			

PROFFIL SWYDDI A BUDDSODDI

PROSIECTAU YN CAEL EU CYFLAWNI

Rhaglen	Prosiect	Rag Status	Swyddi		Cynllun Twf		Cyfanswm Buddsoddiad	
			Targed	Gwirion eddol	Dyraniad (£m)	Gwirioneddol (£m)	Targed (£m)	Gwirion eddol (£m)
Cysylltedd Digidol	Canolfan Prosesu Signalau Digidol (DSP)		40	25	2.96	2.58	3.08	2.76
Ynni Carbon Isel	Cydnerth (Morlais)		253	8	8.87	8.87	15.99	8.87
	Y Gronfa Ynni Glân		186	2	24.63	0.70	102.5	0.75
Tir ac Eiddo	Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych		0	0	2.00	0.00	5.00	0.00
	Parc Bryn Cegin, Bangor - Cam 1		83	0	7.34	0.83	8.84	0.83
Bwyd-amaeth a Thwristiaeth	Academi Croeso		68	0	4.43	2.20	19.28	3.94
Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel	Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter		109	13	11.99	11.11	18.82	12.25
	Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol		67	8	2.96	2.19	3.46	2.69
	CYFANSWM		806	56	65.33	28.48	176.97	32.09

PROJECTS APPROVED NOT IN DELIVERY

Rhaglen	Prosiect	Rag Status	Swyddi		Cynllun Twf		Cyfanswm Buddsoddiad	
			Targed	Gwirion eddol	Dyraniad (£m)	Gwirioneddol (£m)	Targed (£m)	Gwirion eddol (£m)
Cysylltedd Digidol	Di-wifr Uwch		173	0	19.54	0.02	30.31	0.02
	4G+		39	0	6.17	0.24	8.20	0.24
	LPWAN		20	0	1.14	0.04	1.14	0.04
Ynni Carbon Isel	Egni		63	0	3.94	0.00	10.01	0.00
Tir ac Eiddo	Parc Bryn Cegin, Bangor - Cam 2		70	0	4.94	0.00	80.85	0.00
	Safleoedd ac Adeiladau Gogledd Môn		95	0	7.00	0.29	10.44	0.75
	Porth Y Porthladd Rhydd		223	0	3.48	0.00	19.09	0.00
	Ysgol Fusnes Albert Gubay		90	0	7.3	0.00	20.45	0.00
	Porthladd Mostyn		299	0	4.0	0.00	14.70	0.00
Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel	Society 5.0		19	0	1.5	0.21	3.0	0.21
Bwyd-amaeth a Thwristiaeth	Hwb Economi Gwledig Glynllifon		106	0	11.82	0.00	19.30	0.00
	CYFANSWM		1,197	0	70.83	0.80	217.49	1.26

ATODIAD A - CRYNODEB O BROSIECTAU'R CYNLLUN TWF

	Prosiect	Noddwr	Crynodeb
Digidol	Canolfan Prosesu Signalau Digidol (DSP)	Prifysgol Bangor	Bydd y prosiect yn galluogi i'r Ganolfan Prosesu Signal Digidol ymestyn ei bresenoldeb a'i gylch gwaith, gan integreiddio'n llawn â'r Prosiect Strategaeth Cenedlaethol a galluogi datblygu asedau allweddol ar raddfa, gan gynnwys prawf-wely 5G, capasiti ymchwil ac offer o'r radd flaenaf.
	4G+ (Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig)	Uchelgais Gogledd Cymru	Bydd y prosiect hwn yn gwella cysylltedd symudol 4G mewn safleoedd economaidd allweddol yn y rhanbarth, gan dargedu llwybrau trafnidiaeth, canolfannau busnes a thwristiaeth a bydd hefyd yn cefnogi'r gwaith pellach o gyflwyno 5G yn yr ardaloedd hyn.
	Di-wifr Uwch (Campysau Cysylltiedig)	Uchelgais Gogledd Cymru	Bydd y prosiect Di-wifr Uwch yn cefnogi sefydliadau'r sector preifat a chyhoeddus i fabwysiadu'r technolegau diwifr diweddaraf i gefnogi gwell darpariaeth gwasanaeth, effeithlonrwydd busnes, arloesi a thwf, yn enwedig trwy ddefnyddio rhaglenni y rhyngrwyd pethau.
	LPWAN (Campysau Cysylltiedig)	Uchelgais Gogledd Cymru	Mae'r prosiect hwn yn ceisio cyflwyno gwasanaeth rhwydwaith LoRaWAN (Long Range Wide Area Network) estynedig a hygyrch drwy'r rhanbarth, gan roi datrysiad cost effeithiol i ddefnyddwyr busnes a sector cyhoeddus i fabwysiadu ceisiadau rhyngrwyd o bethau ac arloesedd ategol.
Ynni Carbon Isel	Cydnerth (Morlais)	Menter Môn	Buddsoddi mewn seilwaith i gysylltu â rhwydwaith y National Grid a monitro effeithiau amgylcheddol morol. Bydd hyn yn galluogi cynnydd yn y defnydd o dyrbinau gan ddatblygwyr morol a chynhyrchu ynni adnewyddadwy.
	Egni	Prifysgol Bangor	Buddsoddi mewn datblygu'r isadeiledd ym Mhrifysgol Bangor a Pharc Gwyddoniaeth Menai, gwella galluedd y Gogledd a'r DU ar gyfer arloesedd mewn ynni carbon isel a meysydd cysylltiedig, gan helpu i greu'r amodau ar gyfer mewnfuddsoddiad newydd a thwf busnes yn y gadwyn gyflenwi ynni carbon isel yn y Gogledd
	Ynni Lleol Blaengar	Uchelgais Gogledd Cymru	Er mwyn helpu i gyflawni targedau ynni adnewyddadwy, datgarboneiddio a pherchnogaeth leol, bydd y prosiect yn cefnogi prosiectau hwyluso arloesol ac arddangoswyr sy'n goresgyn methiannau'r farchnad a datgloi buddsoddiad sector preifat a chymunedol mewn datrysiadau ynni lleol blaengar.
	Hwb Hydrogen Caergybi	Menter Môn	Bydd y prosiect yn adeiladu cyfleuster cynhyrchu hydrogen gwyrdd ym Mharc Cybi, Caergybi, gan gynhyrchu oddeutu 2000+kg/y dydd o hydrogen gwyrdd, gan gyflenwi cwsmeriaid trafnidiaeth y ffordd, morwrol a rheilffordd ar draws Gogledd Cymru.
	Canolfan Arloesi a Sgiliau Busnes Trawsfynydd	Cyngor Gwynedd	Cynllun a fydd yn cynnwys adeilad i gynnwys mannau ar gyfer swyddfeydd, labordai (union fanyleb i'w chadarnhau) a chyfleusterau ategol (lle cyfarfod, caffi/ffreutur ac ati), i gefnogi'r diwydiant niwclear ac ynni carbon isel ynghyd â'r gymuned wyddonol, wedi'i leoli ar Safle Trawsfynydd.
Tir ac Eiddo	Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych	Uchelgais Gogledd Cymru	Bydd arian y Cynllun Twf yn cynorthwyo yng nghyflwyniad safle wedi'i glirio a'i adfer gyda phrif wasanaethau er mwyn dwyn ymlaen datblygiad preswyl a masnachol defnydd cymysg
	Parc Bryn Cegin, Bangor	Uchelgais Gogledd Cymru	Darparu arwynebedd llawr diwydiannol i fodloni'r galw hysbys am unedau.
	Porth Wrecsam	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	Mae'r prosiect hwn yn ddatblygiad cynaliadwy o ardal fywiog wedi'i hadfywio, sy'n creu canolbwynt i gefnogi buddsoddiad busnes a hwb trafnidiaeth aml-ddull gyda chysylltiadau at deithio llesol.
	Safleoedd ac Adeiladau Gogledd Môn	Cyngor Sir Ynys Môn	Darparu 2,200 metr sgwâr o ofod busnes yng ngogledd Ynys Môn gan greu o leiaf 59 o swyddi a throsoli twf y Porthladd Rhydd ac ynni carbon isel.
	Porth y Porthladd Rhydd	Cyngor Sir Ynys Môn	Datgloi 6,750 metr sgwâr o ofod busnes yn Llangefni, gan greu o leiaf 186 o swyddi a gwneud y mwyaf o fanteision Porthladd Rhydd Ynys Môn.
	Padeswood	Trafnidiaeth Cymru	Gwelliannau i'r rheilffordd i gael gwared ar gyfyngiadau a mynd i'r afael â mynediad/allanfa ar gyfer cludo nwyddau rheilffordd i mewn i Waith Sment Padeswood
	Porthladd Mostyn	Porthladd Mostyn	Uwchraddio'r angorfa ac adfywio'r hen safle diwydiannol.
	Ysgol Fusnes Albert Gubay	Prifysgol Bangor	Adeiladu Ysgol Fusnes Albert Gubay ym Mhrifysgol Bangor.
Bwyd amaeth a thwristiaeth	Hwb Economi Gwledig Glynllifon	Grŵp Llandrillo Menai	Y weledigaeth yw creu Hwb Economi Gwledig arbennig o'r radd flaenaf yng Nglynllifon, sy'n cynnig ystod o gyfleusterau a gwasanaethau i gryfhau a gwella'r economi rhanbarthol, yn benodol drwy dyfu'r sector bwyd a diod.
	Academi Croeso (Rhwydwaith Talent Twristiaeth)	Grŵp Llandrillo Menai	Sicrhau dyfodol yr ystod o ddarpariaeth sgiliau a chynyddu buddion masnachol o un o'r sectorau mwyaf sefydledig yn y rhanbarth. Bydd y rhwydwaith talent yn ysgogi cydweithrediad cyhoeddus-preifat i gydlynu gweithrediad ar sgiliau a datblygu cynnyrch i drawsnewid a sbarduno twf y sector twristiaeth a lletygarwch yn y rhanbarth.
	Antur Gyfrifol	Zip World	Prosiect aml-elfen fel rhan o becyn cynaliadwy ac eco-dwristiaeth sy'n cynnwys Car Cebl cynaliadwy newydd, Slate Explorer gan gynnwys platfform gwylio ymwelwyr, a Swing.
	Dyfodol Venue Cymru	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Prosiect a fydd yn ehangu cyfleusterau Venue Cymru, yn rhoi hwb i swyddi, yn torri carbon, ac yn denu sioeau a chynadleddau mawr a buddsoddiad diwylliannol.
Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel	Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol (CEB)	Prifysgol Bangor	Bydd y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn ganolfan gyda'r gorau yn y byd o ran canfod a nodweddu ensymau newydd o bwys diwydiannol. Bydd y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn darparu sylfaen gref ar gyfer denu ymchwilwyr blaenllaw ar lefel fyd-eang, cyllid ymchwil cyhoeddus a masnachol arwyddocaol a mewnfuddsoddiad i Gymru.
	Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter	Prifysgol Wrecsam	Bydd y Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter yn darparu cyfleusterau sydd wedi'u targedu i roi hwb i ddatblygu sgiliau lefel uchel i'r rhanbarth a galluogi i fusnesau bach a chanolig eu maint a busnesau mawr weithio mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam ar ymchwil a datblygu opteg, cyfansoddion a thanwydd cell hydrogen sy'n cael ei yrru'n fasnachol.
	Society 5.0	Prifysgol Wrecsam	Gwella'r Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter a galluogi i'r diwydiant gael mynediad at ragor o adnoddau peirianneg hynod-fanwl o'r radd flaenaf.
	Prosiect Prince	Knauf	Adeiladu ffatri wlân mwynol 110kt gyda ffwrnais arc tanddwr (SAF), yn bennaf i wasanaethu marchnadoedd y DU ac Iwerddon.
	Porth Busnes Prifysgol Wrecsam	Prifysgol Wrecsam	Pontio rhwng Prifysgol Wrecsam a diwydiant lleol, gan feithrin cydweithio, arloesi, creu swyddi a thwf economaidd cynhwysol.